

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Thomas (Cadeirydd); Councillor M.R. Wilson (Is-gaderiyydd); Y Cynghorydd J. Aviet, G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr S.M. Hanks W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), J.M. Norman, J. Protheroe a R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

Enw'r Siaradwr	Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad	Rheswm dros Siarad
Mr Darren Green	2022/00907/FUL – Tir yn Bridge House Farm, Llanmaes Road, Llanilltud Fawr	Gwrthwynebwyr y cais neu eu cynrychiolydd
Y Cynghorydd Graeme Smith	2022/00907/FUL – Tir yn Bridge House Farm, Llanmaes Road, Llanilltud Fawr	Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Gymuned
Mr Rob Mitchell	2022/00907/FUL – Tir yn Bridge House Farm, Llanmaes Road, Llanilltud Fawr	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Mr George Ledwards	2022/00907/FUL – Tir yn Bridge House Farm, Llanmaes Road, Llanilltud Fawr	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
Mr Charlie Thomas	2023/01161/FUL – Tir i'r Gorllewin o Drope Road, Sain Siorys ar-Elái	Yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

Siaradodd y Cynghorwyr S.M. Hanks a G. John hefyd mewn perthynas â Chais Cynllunio Rhif 2022/00907/FUL – Tir yn Fferm Bridge House, Heol Llanmaes, Llanmaes, Llanilltud Fawr yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau Cyngor Bro Morgannwg dros Lanilltud Fawr.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd C. Stallard.

COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

YMWELIADAU SAFLE (PW) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi presenoldeb y Cyngorwyr canlynol yn yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2024.

34 Smithies Avenue, Sili	Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd), Y Cyngorwyr I.R. Buckley, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, A.E. Ernest a C. Stallard.
Tir i'r De o Blackton Lane ac i'r gorllewin o Port Road, Y Rhws	Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd), Y Cyngorwyr I.R. Buckley, C.E.A. Champion, a C. Stallard

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr am –

34 Smithies Avenue, Sili,

Y Cyngorwyr C.A. Cave, P. Drake, W. Gilligan a Dr. I.J. Johnson.

Tir i'r De o Blackton Lane ac i'r gorllewin o Port Road, Y Rhws,

Y Cyngorwyr C.A. Cave, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan a Dr. I.J. Johnson.

(2) Y dylid nodi bod ymddiheuriadau'r Cynghorydd H.M. Payne wedi'u darparu cyn yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2024, ond nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 26 Medi, 2024.

CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.

(2) Y DYLLID nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) NODI'r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 8 trwy 28, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr apeliadau a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y nodir yn Adran A yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(2) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodaeth wedi'u derbyn ar adeg y cyfarfod.

(3) NODI'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.

(4) Y DYLLID nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod

(5) BOD yr ystadegau'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2024 – Mawrth 2025, fel y manylir arnynt yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

COED (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 40 trwy 41, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

GORFODAETH (PDC) –

(i) Tir ac Adeiladau ym Mharc Busnes yr Iwerydd, Y Barri

Yn dilyn cwyn a wnaed i'r Cyngor, cadarnhaodd ymchwiliad fod unedau 3, 30, a 40 – 42 o Barc Busnes yr Iwerydd, Y Barri, yn cael eu defnyddio at ddibenion sy'n disgyn y tu allan i ddosbarthiadau defnydd B1 (defnydd busnes diwydiannol ysgafn) a B8 (storio a dosbarthu). Rhoddwyd caniatâd ar gyfer y parc busnes yn 2018 (cyfeirnod cais: 2018/01317/FUL) ar yr amod na ddefnyddiwyd yr unedau ond at ddibenion sy'n dod o dan ddosbarthiadau defnydd B1 (Busnes) a/neu B8 (Storio neu Ddosbarthu), ar y sail bod y parc busnes wedi'i leoli o fewn dyraniad cyflogaeth lleol ar gyfer y defnyddiau hyn. Pwrpas cyfyngu ar ddefnydd yr unedau yn y safle yn y dyfodol, oedd sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at gyflawni gofynion cyflogaeth lleol ar gyfer defnyddiau sy'n dod o fewn cylch gwaith B1 a B8.

Yn absenoldeb unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer yr unedau a nodwyd, a oedd yn cynnwys saer maen (B2), campfa (D2), bragdy ac ystafell / bar tap cysylltiedig (B2 ac A3), ystyriwyd yn annerbyniol caniatáu i'r defnyddiau hyn barhau heb unrhyw reolaeth gynllunio. Os na chymerwyd camau, roedd y defnydd anawdurdodedig yn debygol o ddod yn gyfreithlon ar ôl 10 mlynedd barhaus. O ystyried natur y defnyddiau a'r effaith niweidiol bosibl sy'n deillio o sŵn afreolus, symudiadau traffig ac arogleuon ar amwynder anheddau preswyl cyfagos, a cholli gofod cyflogaeth, ystyriwyd yn fuddiol cymryd camau gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnyddio'r unedau a nodwyd at unrhyw ddiben, ac eithrio'r rhai sy'n dod o dan ddosbarthiadau B2 a B8.

PENDERFYNWYD –

(1) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi ar sail Tor Amod dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

- (i) Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion amod rhif 6 y cyfeirnod caniatâd cynllunio 2018/01317/FUL drwy roi'r gorau i ddefnyddio unedau 3, 30, a 40 – 42, ac eithrio defnyddiau sy'n dod o fewn Dosbarthiadau B1 a B8 o Atodlen Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, neu mewn unrhyw ddarpariaeth sy'n cyfateb i'r Dosbarth hwnnw mewn unrhyw offeryn statudol sy'n diwygio, Dirymu neu ail-ddeddfu'r Gorchymyn hwnnw.

(2) Os na chydymffurfid â'r Hysbysiad, fe awdurdodwyd cymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gall defnyddio unedau 3, 30, a 40 – 42 at ddibenion heblaw'r rhai sy'n dod o dan ddosbarthiadau defnydd B1 a B8 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 fel y'i diwygiwyd gael effeithiau niweidiol afreolus ar amwynder preswyl a chyhoeddus, trwy gynhyrchu llygredd sŵn annerbyniol, arogleuon, symudiadau traffig ychwanegol ac unrhyw effeithiau niweidiol eraill. Gall defnydd heb ei reoli o'r unedau a nodwyd ddod yn gyfreithlon ac yn ddiogel rhag unrhyw gamau gorfodi ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd barhaus o ddefnydd. Byddai hon yn sefyllfa gwbl annerbyniol ar y sail mai dim ond yn amodol ar fesurau lliniaru priodol y gellir ystyried bod y defnyddiau a nodwyd yn dderbyniol, y gellid ond eu gwneud drwy gysylltu amodau cynllunio â rhoi caniatâd cynllunio. Felly, yn absenoldeb caniatâd cynllunio i reoleiddio'r defnydd o'r unedau a nodwyd, ystyrir bod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol ac yn groes i Bolisiâu MD2 a MD7 o'r CDLI Mabwysiedig yn ogystal â Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12).

(2) Mae Parc Busnes yr Iwerydd hefyd wedi'i leoli o fewn safle cyflogaeth lleol a nodwyd ar gyfer defnyddiau B1 a B8, fel y'i dyrennir gan Bolisi MG9 o'r CDLI Mabwysiedig. Felly, o ystyried mai pwrpas y dyraniad cyflogaeth lleol yw sicrhau bodloni gofynion cyflogaeth yr ardal, ystyrir bod caniatáu i ddefnyddiau afreolus sefydlu a dod yn gyfreithlon dros amser yn yr unedau a nodwyd yn annerbyniol mewn egwyddor ac yn tanseilio pwrpas y dyraniad cyflogaeth, yn groes i Bolisi MG9 y CDLI.

(3) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

CEISIAD CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiad a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2022/00907/FUL

Derbyniwyd ar 18 Awst 2022

YMGEISYDD: Lidl GB Ltd D/O Asiant

ASIAANT: Mr Rob Mitchell Ty Brunel, 2 Fitzalan Road, Caerdydd, CF24 0EB

Tir yn Bridge House Farm, Llanmaes Road, Llan-maes, Llanilltud Fawr

Codi siop fwyd Dosbarth A1 gyda mynediad, parcio ar yr wyneb, tirlunio a'r holl ddatblygiadau cysylltiedig.

Ar ôl i'r mater gael sylw yn y cyfarfod, cyflwynodd Aelod gynnig i gymeradwyo'r cais a eiliwyd yn briodol. Yn dilyn hynny, gwnaed cais gan Aelod arall am bleidlais wedi'i chofnodi ar y cynnig, gyda'r bleidlais fel a ganlyn:

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet	√		
Gillian Bruce		√	
Ian Buckley		√	
Christine Cave		√	
Charles Champion	√		
Marianne Cowpe	√		
Pamela Drake		√	
Anthony Ernest		√	
Wendy Gilligan	√		
Nic Hodges	√		
Dr. Ian Johnson	√		
Helen Payne	√		
Ian Perry		√	
Carys Stallard			
Neil Thomas			√
Eddie Williams	√		
Mark Wilson	√		
Cyfanswm	9	6	1

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar osod yr amodau perthnasol.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2023/01161/FUL

Derbyniwyd ar 28 Mai 2024

YMGEISYDD: Mr Charlie Thomas North Lodge, Coedarhydyglyn, St Nicholas, Y Bont-faen, CF5 6SF**ASIAN:** Ms Anna Cheney 11 - 12 Jellicoe Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AJ**Tir i'r Gorllewin o Drope Road, Sain Siorys ar-Elái**

Mewnforio a thaenu deunydd anadweithiol (pridd uwch ac isbridd) i godi lefelau pridd i gynorthwyo gyda hwsmonaeth tir.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – T H A T ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD ALLANOL A BENODWYD – TIR YN MODEL FARM, PORT ROAD, RHOOSE –

(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen i ddiweddarau'r aelodau ar statws yr apêl a chyflwyno tystiolaeth newydd sy'n ymwneud yn benodol â rhesymau tybiedig y cyngor dros wrthod y cytunwyd arnynt yn flaenorol)

Wrth ystyried yr adroddiad, ymrwymodd y Pwyllgor i Ran II (sesiwn preifat) i dderbyn a thrafod cyngor cyfreithiol cyfrinachol. Dychwelodd wedyn i Ran I (sesiwn gyhoeddus) er mwyn rhoi ei benderfyniad ar yr adeg hon.

YNA, GOHIRIWYD Y CYFARFOD I'W AILYMGYNNULL YN DDIWEDDARAF ER MWYN YSTYRIED YR ADRODDIAD UCHOD YMHELLACH.